

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Fynwy

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy ar gyfer y flwyddyn 2014–15

Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015

Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Fynwy

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Fynwy o ran cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1. Crynodeb

- 1.1. Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd da, gydag agenda trawsnewid arferion, ac mae mewn sefyllfa dda i fodloni'r gofynion fel y'u hamlinellir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r cyngor wedi canolbwyntio ar wneud cynnydd ar agenda uchelgeisiol mewn gwasanaethau oedolion. Mae hyn wedi bod yn anoddach yng ngwasanaethau plant, lle mae'r adran wedi bod yn gweithio'n galed i gyflenwi'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Cafodd hyn ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr arolygiad a gynhaliwyd gan AGGCC yng ngwasanaethau plant ym mis Tachwedd 2014, lle gwelwyd sawl maes â gwendidau. Gwnaeth y cynllun gweithredu hefyd nodi'r meysydd i'w gwella a amlinellwyd yn Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor y llynedd.
- 1.2. Gwnaed cynnydd ar nifer o feysydd hyd yn hyn. Yn benodol, mae'r cyngor wedi gwneud welliannau o ran ymweliadau statudol i blant sy'n derbyn gofal, ac amseroldeb adolygiadau ar gyfer plant mewn angen, yn ogystal â recriwtio i swyddi parhaol. Fodd bynnag, bydd angen i wasanaethau plant barhau i wella dros y flwyddyn nesaf.
- 1.3. Mae'r cyngor yn cydweithio'n dda â phartneriaid ar draws gwasanaethau oedolion a phlant i gyflawni canlyniadau gwell yn y ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol. Yng ngwasanaethau'r oedolion, mae trefniadau partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn aeddfed ar lefel strategol a gweithredol. Fodd bynnag, er bod cynnydd ar y gwaith, weithiau mae angen i hyn ddatblygu'n gynt, gyda mwy o egni a chydag amcanion clir. Mae'r gwaith integreiddio iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â'r prosiect *Listen Engage Act Participate (LEAP)* drwy'r cyngor i gyd yn enghraifft o hyn.
- 1.4. Cafwyd rhagor o welliannau mewn gwasanaethau oedolion mewn nifer o feysydd allweddol, yn benodol o ran achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, sydd wedi lleihau. Mae'n amlwg bod cynnydd parhaus mewn gwasanaethau ail-alluogi, a'u bod yn gweithio'n effeithiol yn y canolfannau y'u rhoddwyd ar waith ynddynt. Fodd bynnag, er bod cynnydd wedi'i wneud, mae angen i gyflymder y newidiadau o ran

cyflwyno gwasanaethau yn gyffredinol yn fwy systematig ar draws y cyngor i gyd gynyddu, er mwyn ail-galibro'r gwasanaethau mewn ffordd briodol ac amserol.

- 1.5. Mae cefnogaeth sylweddol yn gorfforaethol a chan aelodau sydd â dealltwriaeth dda o'r heriau y mae gofal cymdeithasol yn eu hwynebu. Tystiolaeth o hyn yw'r ffaith bod cyllidebau gofal cymdeithasol wedi eu hamddiffyn yn 2014-15, a'r cytundeb a gafwyd i roi £1.2 miliwn o gyllid ychwanegol i faes gwasanaethau plant er mwyn cyflawni ei swyddogaethau statudol ac i ddiogelu plant yn effeithiol. Fodd bynnag, bydd hyn yn anoddach yn y dyfodol pan fydd angen gwneud arbedion sylweddol ar draws holl wasanaethau'r cyngor.
- 1.6. Er bod gan ei ddinasyddion ddisgwyliadau uchel am wasanaethau cyhoeddus, mae'r cyngor yn cydnabod y bydd yn rhaid darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol, ac nid o reidrwydd gan y cyngor. Rhoddir mwy o bwyslais ar ddarparu cymorth drwy rwydweithiau cymunedol a chymorth lleol.

2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Gwelliant a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2014–2015
Gweithredu mewn ymateb i feysydd gwella y tynnwyd sylw atynt yn yr arolygiad plant sy'n derbyn gofal.	Datblygwyd cynllun gweithredu ôl-arolygiad sy'n destun monitro parhaus mewn tri chyfarfod ymgysylltu penaethiaid gwasanaethau gydag AGGCC.
Gweithio gyda chydweithwyr ieuchyd i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion ieuchyd meddwl yn derbyn gwasanaethau ieuchyd meddwl plant a'r glasoed priodol i ddiwallu eu hanghenion	Gwnaed cynnydd yn y maes hwn, ac mae dull newydd o gydweithio wedi cryfhau'r trefniadau partneriaeth rhwng y ddau sefydliad.
Rhodddwyd systemau ar waith i werthuso effeithiau'r gwaith a wnaed gan yr uned diogelu a sicrwydd ansawdd i wella trefniadau diogelu ym maes addysg.	Gwnaed gwelliannau cyffredinol, a darparwyd hyfforddiant diogelu ym maes addysg. Mae'r gwaith hwn yn barhaus.
Adolygu'r strwythur a'r arferion yn y tîm cymorth i deuluoedd i sicrhau bod pryderon yn cael eu nodi ac y gweithredir yn eu cylch mewn da bryd.	Mae cynnydd yn cael ei wneud ar hyn fel rhan o'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i'r arolygiadau gwasanaethau plant a gwblhawyd, sy'n destun gwaith monitro parhaus.
Dylai'r cyngor wella ei berfformiad mewn perthynas ag ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal	Mae hyn wedi gwella o 65% y llynedd i 83%, lle mae plant yn derbyn ymweliadau statudol yn unol â'r rheoliadau.

Adolygu arferion a pherfformiad mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a chymryd camau gweithredu priodol i wella yn y maes hwn.	Datblygwyd rhaglen hyfforddiant sy'n cael ei chyflwyno i'r staff, a chynhelir archwiliadau rheolaidd.
Sicrhau bod cynllun addysg personol ar waith ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal sydd ei angen.	Mae'r dangosydd perfformiad PEP wedi gwella o 58% i 87% dros y flwyddyn ddiwethaf
Gwella mwy o ran cwblhau adolygiadau plant mewn angen yn unol â'r amserlen statudol	Mae'r adolygiadau a gynhaliwyd wedi gwella'n sylweddol, ac maent wedi codi i 86%.
Sicrhau bod gan y cyngor ddealltwriaeth dda o lefel anghenion pobl ifanc sy'n agored i niwed a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sydd mewn perygl, a'i fod yn deall ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol	Mae'r cyngor wedi recriwtio dau unigolyn sy'n gadael gofal fel prentisiaid sy'n rhannu swydd, ac maent wedi eu cynrychioli ar y panel rhianta corfforaethol. Bwriedir sefydlu cyngor plant a gofal.
Gweithredu'r strategaeth rhianta corfforaethol	Mae'r cyngor yn dangos ymrwymiad i rôl rhianta corfforaethol, sydd â phroffil uwch o fewn yr awdurdod bellach. Mae gwell ddealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau'r grŵp bellach.

3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau hynny. Yn ystod 2014/15, cynhaliodd AGGCC yr ymweliadau, arsylwadau a chyfleoedd ymgysylltu canlynol â safleoedd:
- Tîm Iechyd Meddwl De Sir Fynwy.
 - Diwrnod cwrdd i ffwrdd, datblygu dull comisiynu newydd - *"Turning the World Upside Down"*.
 - Ymweliad â FC4FC (Grŵp Gofalwyr Maeth).
 - Presenoldeb mewn Cyfarfod Panel Gofal Maeth.
 - Cyfarfod â'r grŵp pobl sy'n gadael gofal.
 - Cyfarfodydd â darparwyr aml-asiantaeth.
 - Mynychu grwpiau craidd a chynhadledd amddiffyn plant.

- Mynychu tri phwyllgor dethol plant a phobl ifanc.
- 3.2. Gwnaeth AGGCC hefyd gwrdd ag uwch-swyddogion y cyngor drwy'r flwyddyn er mwyn adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ac i drafod cynnydd mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y gwerthusiad o berfformiad a gynhaliwyd y llynedd. Roedd y cyngor yn barod iawn i ymgysylltu ag AGGCC, a gwnaethant gynorthwyo AGGCC i gael mynediad at safleoedd er mwyn cynnal ymweliadau.
- 3.3. Cynhaliodd AGGCC arolygiad o wasanaethau plant ym mis Tachwedd 2014. Roedd hwn oherwydd diffygion a welwyd mewn arolygiad cenedlaethol â thema ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal yn gynharach yn 2014. Cynhaliwyd arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sydd o dan reolaeth y cyngor, yn ogystal â rhai o dan reolaeth sefydliadau annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r gwasanaeth maethu mewnol. Mae manylion am y rhain wedi eu cynnwys mewn adroddiadau a gyhoeddwyd ar wefan AGGCC.

4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- 4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y meysydd penodol y gwneir gwaith dilynol arnynt yn cynnwys:
- Monitro'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad mewn gwasanaethau plant yn barhaus.
 - Ymweliad â'r tîm cyswllt i ystyried gwasanaethau drws ffrynt.
 - Ymweld â'r prosiect Rhaglan i ystyried canlyniadau ar gyfer pobl â dementia.
 - Ymweld/cwrdd â defnyddwyr gwasanaethau sydd ag anabledd dysgu ac sy'n rhan o'r prosiect *My Day-My Life*.

5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

Oedolion

Trosolwg

- 6.1. Mewn gwasanaethau oedolion, blaenoriaethau allweddol y cyngor yw hybu annibyniaeth pobl er mwyn eu galluogi i barhau i reoli eu bywydau eu hunain drwy ddatrysiadau sy'n seiliedig yn y gymuned, yn ogystal â darparu gwasanaethau ail-alluogi integredig sy'n fwy canolbwyntiedig lle bo angen. Mae'r pwyslais eleni yn parhau i symud i ffwrdd o fod yn ddull sy'n canolbwyntio ar ddiffyg, i fod yn ddull sy'n canolbwyntio ar gryfderau ac asedau pobl, a chanfod datrysiadau ar y cyd drwy drefniadau partneriaeth ar y cyd a chymorth teuluol.
- 6.2. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd ar ei ddull o gynorthwyo pobl hŷn â dementia i barhau i fyw bywydau boddhaus yn eu cymunedau eu hunain drwy'r prosiect Rhaglan. Ar hyn o bryd mae'n darparu gofal i un deg pedwar o bobl mewn ardal wledig, ac mae hyn yn hybu perthynas yn seiliedig ar dderbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae hyn wedi disodli'r gwasanaeth gofal cartref a oedd eisoes yn bodoli, ac mae'r prosiect wedi recriwtio ar gyfer pum swydd amser llawn â chyflog fel cynorthwydd galluogi. Mae hyn wedi bod yn bwysig er mwyn bod yn ddibynadwy ac yn gyson. Gwnaeth AGGCC siarad ag aelod o'r tîm, a siaradodd hithau'n llawn brwdfrydedd am y teimlad o fod wedi ei grymuso ac o gael ymreolaeth i allu darparu gwasanaeth hyblyg wedi'i deilwra i'r bobl a gefnogir ganddi. Mae'r cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac mae wedi ennill acolâd gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cyngor yn gweithio tuag at estyn y prosiect i feysydd eraill, yn dechrau ym mis Hydref 2015.
- 6.3. Bydd newidiadau i arferion, a dulliau newydd o weithio yn arwain at fwy o ymreolaeth a llai o fiwrocratiaeth mewn gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cael effaith ar fodelau darparu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli a newid diwylliant i'r holl bartneriaid. Mae gwaith eisoes wedi'i wneud mewn gwasanaethau oedolion drwy gyfres o weithdai er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddulliau'r dyfodol o gefnogi pobl. Mae hyn wedi'i ategu ymhellach gan fframwaith cymhwysedd gofal i sicrhau bod gan y gweithlu sy'n gweithio ar Brosiect Rhaglan y galluoedd allweddol sydd eu hangen i ddefnyddio'r dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau.

Bydd trafodaethau parhaus â phartneriaid iechyd yn y sector gwirfoddol yn allweddol i'w llwyddiant parhaus

- 6.4. Mae nifer o staff, gan gynnwys y pennaeth gwasanaethau, wedi cwblhau hyfforddiant cynhwysfawr mewn gofal dementia sydd wedi'i achredu drwy *Dementia Care Matters* a Phrifysgol Surrey, sy'n cael ei gyflwyno i staff eraill drwy'r adran.
- 6.5. Mae'r strategaeth comisiynu tair blynedd, a oedd yn amlinellu bwriad y cyngor i ymchwilio i ragor o drefniadau partneriaeth arloesol â darparwyr sy'n rhannu'r un gwerthoedd a dyheadau, wedi symud ymlaen. Yn gynharach eleni, lansiodd y cyngor ei gynigion am fodel newydd o ofal cartref yn seiliedig ar egwyddorion grymuso a dull a arweinir gan unigolion sy'n ychwanegu at lwyddiannau'r ffordd hon o weithio ym mhrosiect Rhaglan. Roedd presenoldeb da mewn gweithdai a gynhaliwyd dros sawl diwrnod ymhlith darparwyr sydd eisoes yn bodoli a darparwyr newydd. Roedd AGGCC yn bresennol, a byddai ganddi ddiddordeb mewn monitro'r cynnydd a wneir mewn perthynas â hyn dros y flwyddyn nesaf.
- 6.6. Mae gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu'n cynnwys prosiect "My Day, My Life", sy'n rhoi tystiolaeth o ganlyniadau gwell i nifer o bobl. Mae ugain o bobl yn ardal Y Fenni wedi bod yn rhan o'r rhaglen, sydd wedi'i seilio ar gynorthwyo unigolyn i gael mynediad at weithgareddau sy'n seiliedig yn y gymuned. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd sy'n well ac yn fwy ystyrlon i bobl ar eu cyflymder nhw, o gymharu â mynychu gwasanaethau dydd traddodiadol. Er bod hyn yn daith hir sy'n defnyddio adnoddau sylweddol, mae'n creu teimlad o annibyniaeth a hunan werth, ac mae ei ymagwedd yn arloesol. Rhagwelir y bydd y prosiect hwn yn cael ei gyflwyno i ardaloedd Trefynwy a Chas-gwent eleni.
- 6.7. Mae perfformiad o ran cwblhau adolygiadau blynyddol ar gyfer 2014-15 wedi gwella, a chafwyd cynnydd o 82% i 85% yn nifer yr adolygiadau a gwblhawyd mewn da bryd, sy'n uwch na'r perfformiad cyfartalog yng Nghymru. Fel rhan o'r trawsnewidiad mewn arferion y sefydliad, ac er mwyn paratoi ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, pwysleisir ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl yn ystod adolygiadau, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Mae'r adolygiadau'n canolbwyntio ar anghenion a dyheadau'r unigolyn, yn hytrach na dechrau drwy adolygu sut mae'r gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli yn diwallu'r anghenion. Er bod hyn yn cymryd mwy o amser, cydnabyddir y bydd hyn yn llwyddo i wella ansawdd bywyd a chanlyniadau'r unigolion hynny.

- 6.8. Gwnaed nifer o welliannau i'r prosesau i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys adnoddau ychwanegol ac ailstrwythuro'r tîm er mwyn sicrhau bod ymateb amserol i bryderon ac ymchwiliadau. Cydnabyddir bod angen rhagor o waith, ac mae system ddiogelu'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, a bwriedir y bydd yn gwbl weithredol erbyn mis Mawrth 2016. Mae AGGCC wedi cydweithio'n gadarnhaol â'r tîm diogelu mewn perthynas â nifer o bryderon unigol a phryderon yn ymwneud â gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.
- 6.9. Mae consortiwm Gwent yn gweithio mewn partneriaeth â'r pum awdurdod lleol a oedd gynt yn rhan o Sir Gwent, ac sy'n rhannu'r un ffiniau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sy'n arwain y tîm Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid annibynnol. O ystyried eu poblogaethau, mae'r cyngor a'r bwrdd iechyd yn derbyn lefelau cymharol isel o geisiadau, er bod Sir Fynwy'n derbyn cyfran uwch na'r ddau gyngor cyfagos yn y consortiwm. Yn 2013-14, derbyniwyd deg o geisiadau yn yr awdurdod lleol (nid oedd ffigurau ar gael ar gyfer 2015). Gwnaed mwy o geisiadau o gartrefi gofal dan reolaeth gwasanaethau cymdeithasol y cyngor nag o'r holl gartrefi gofal sector annibynnol â lleoedd wedi eu comisiynu. Awgryma hyn efallai nad yw'r lefel ymwybyddiaeth o achosion posibl o amddifadu rhyddid yn gyson ar draws yr holl ddarparwyr, yn enwedig o ran perchnogion cartrefi gofal yn y sector annibynnol. Bydd angen i'r cyngor ystyried sut i fynd i'r afael â hyn yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys.
- 6.10. Mae nifer yr aseswyr budd pennaf wedi lleihau, er y bydd lefel y gwaith yn cynyddu heb unrhyw amheuaeth o ganlyniad i ddyfarniad Gorllewin Swydd Gaer. Bydd angen rheoli hyn er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth. Hefyd, nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw aseswyr budd pennaf yn ei dimau asesu a rheoli gofal, a gallai hynny fod yn gyfle a gollwyd fel adnodd arbenigol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid er mwyn sicrhau eu bod wedi eu hymgorffori mewn gwaith asesu a rheoli gofal.
- 6.11. Dylai'r cyngor ystyried ffyrdd y gallai fod yn sicr bod y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi eu hymgorffori'n llawn yn ei arferion o ddydd i ddydd. At hynny, dylai'r cyngor ystyried cynnal archwiliad o'i drefniadau rheoli er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau rhwng ei gorff goruchwyllo a'i swyddogaethau fel awdurdod rheoli.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.12. Mae'r pwyslais polisi cenedlaethol ar wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn creu nifer o heriau i'r cyngor, oherwydd mae nifer gynyddol o bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a dementia cynnar, ac sydd am aros yn eu cymuned leol. Yn Sir Fynwy, mae mwy o bwyslais ar hyrwyddo'r rhwydweithiau cymunedol ehangach drwy gydgyssylltwyr cymunedol, a thrwy ddibynnu llai ar wasanaethau statudol oni bai bod angen cymorth penodol. Mae hyn wedi newid y ffordd y mae pobl yn derbyn cymorth mewn amgylchoedd sy'n gyfarwydd ac yn bwysig iddynt. Un enghraifft o hyn yw bod gwasanaethau wedi eu datblygu ar gyfer pobl sydd â dementia cyffredinol, yn ogystal â nifer o rwydweithiau cymunedol rhanbarthol a grëwyd, megis Cyfeillion Rhaglan a Llandingad, er mwyn cefnogi pobl yn lleol.
- 6.13. Mae cynnydd yn y maes hwn, ac mae hyn wedi'i gadarnhau gan ddangosyddion perfformiad, sy'n dangos bod gan Sir Fynwy'r nifer isaf o bobl yn byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru fesul 1,000 o'r boblogaeth. At hynny, gwnaeth nifer y bobl dros 65 blwydd oed fesul 1,000 o'r boblogaeth a oedd yn derbyn cymorth yn y gymuned leihau eleni o 57 yn 2013-14 i 53 yn 2014-15, ac mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd yng Nghymru. At hynny, yn ôl y cyngor mae 54% o bobl yn dychwelyd i fod yn annibynnol ar ôl cael eu hail-alluogi, ac mae modd diwallu eu hanghenion drwy gyfleoedd yn y gymuned ehangach. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â'r gwasanaeth hwn yn gadarnhaol iawn. Mae parhau i wneud cynnydd ac i gefnogi annibyniaeth pobl yn bwysig.

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth

- 6.14. Mae gan Sir Fynwy dimau iechyd a gofal cymdeithasol sefydledig ac integredig sy'n darparu gwasanaethau integredig. Mae'r agenda eiddilwch wedi'i hymgorffori i'r model gwasanaethau integredig, ac mae hwn yn parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a helpu pobl i aros yn annibynnol. Staff iechyd a gofal cymdeithasol yn y timau integredig sy'n cyflawni'r asesiadau integredig hyn. Darparwyd hyfforddiant ar asesu yn seiliedig ar ganlyniadau, a hyfforddiant ar gynllunio gofal a chymorth i rai staff yn y timau hyn. Er enghraifft, mae cymorth camu i fyny a chamu i lawr yn dal i fod ar waith yn y llety preswyl ym Mharc Maerdy, sy'n lleihau o ran maint, ac yn y gymuned ehangach. Mae data perfformiad yn dangos bod y model integredig o ddarparu

gwasanaethau yn parhau i gael effaith, ac mae llai o bobl yn y gymuned sydd angen cymorth. At hynny, roedd llai o bobl wedi profi oedi cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac roedd y gyfradd o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi lleihau o 1.8 yn 2013-14 i 1.4 yn 2014-15. Mae'r gyfradd o bobl fesul 1000 o'r boblogaeth sy'n derbyn cymorth mewn cartrefi gofal yn parhau i fod yn sefydlog ar 11, o gymharu â chyfartaledd o 19 yng Nghymru.

- 6.15. Sefydlwyd y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i oruchwyllo ac arwain y gwaith o ddatblygu gwasanaethau arbenigol iechyd meddwl ac anableddau dysgu ledled Gwent. Datblygwyd strategaethau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, a gwasanaethau iechyd meddwl drwy ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd, a staff. Roedd y strategaeth yn amlinellu cynllun ar gyfer dyfodol gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hybu annibyniaeth a chynhwysiant. Mae ardaloedd lleol yng Ngwent yn defnyddio opsiynau ac amserlenni gwahanol, ac maent yn aros i weld yr hyn a ddysgir o'r ail gam, cyn cyflwyno ledled y pum awdurdod lleol. Mae'r cynnydd cyffredinol o ran gweithredu'r strategaethau hyn wedi bod yn araf, ac mae angen rhagor o waith i ailgalibro gwasanaethau mewn ffordd briodol a systematig.
- 6.16. Eleni cynhaliodd AGGCC adolygiad byr o wasanaethau iechyd meddwl yn nhîm y de, a chanfuwyd bod y Mesur Iechyd Meddwl wedi'i weithredu'n llawn. Dangosodd staff dystiolaeth o ba mor effeithiol oedd y trefniadau ar gyfer cydweithio, ac roedd cynlluniau iechyd, gofal a thriniaeth a oedd yn dangos ffocws clir ar wella canlyniadau i bobl. Mae'r dull hwn o ymdrin â defnyddwyr gwasanaethau yn pwysleisio grymuso, ynghyd â rhoi cymorth priodol, hyd yn oed mewn achosion lle mae'r anghenion yn gymhleth iawn.
- 6.17. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud cyfraniad cryf at weithredu gwasanaethau eilaidd yn y Mesur Iechyd Meddwl, ond nid ydynt yn cefnogi gwasanaethau cymorth iechyd meddwl cynradd yn uniongyrchol. Mae rheolwyr o'r farn y dylid targedu cymysgedd sgiliau'r tîm at bobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae gweithredu deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol a Llesiant, gyda'i gofyniad i gynnig neu drefnu ymyrraeth a chynghor cynharach, yn debygol o herio hyn.
- 6.18. Cynhelir archwiliadau perfformiad chwarterol ond mae'r broses wedi'i llesteirio gan y ffaith bod systemau TG ar wahân. Mae'r archwiliad wedi tynnu sylw at broblemau ynglŷn â'r ffordd y caiff cymorth i ofalwyr/aelodau o'r teulu ei ddiffinio a'i flaenoriaethu. I ddechrau, mae asesiadau o gryfderau ac anghenion yn canolbwyntio ar yr unigolyn a atgyfeiriwyd i'r tîm iechyd meddwl cymunedol. Ymddengys fod trafodaethau am gyfrinachedd sy'n ymddangos yn gynnar yn y broses

yn gallu arwain at beidio â diffinio aelodau o'r teulu fel gofalwyr, a pheidio â chael cynnig asesiad gofalwyr.

- 6.19. Mae data a gyflwynwyd gan y cyngor yn dangos bod yr holl ofalwyr yn cael cynnig eu hasesiad eu hun, ond dim ond 14% ohonynt a gafodd asesiad. Mae hwn yn berfformiad gwael, ac ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae cyllideb eleni'n dangos bod cyllid ychwanegol wedi'i neilltuo i weithredu'r strategaeth gofalwyr yn llawn. O'r herwydd, mae'r cyngor yn nodi ei fod yn hyderus y bydd yr holl ofalwyr yn cael cymorth priodol, a bod y data a gofnodir yn anghywir.

Meysydd o gynnydd

- Cymorth ar gyfer pobl â dementia a'u teuluoedd drwy ddatblygu gwasanaethau lleol cyffredinol.
- Ymrwymiad i hyfforddi'r holl staff mewn *Dementia Care Matters*.
- Cymorth parhaus i bobl ag anableddau dysgu drwy'r Prosiect "My Day-My Life".
- Ymgysylltu â'r sector ynglŷn â'r trawsnewid arfaethedig yn y ddarpariaeth gofal cartref.

Meysydd i'w gwella

- Y cyflymder newid o ran cyflwyno prosiect Rhaglan a'r prosiect *My Day-My Life* i ganolfannau cymunedol eraill a nodwyd yn Sir Fynwy.
- Dylai'r cyngor sicrhau bod y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi eu hymgorffori'n llawn yn yr arferion bob dydd o ran asesu a rheoli gofal.
- Mae angen adolygu'r trefniadau ar gyfer cofnodi data ynglŷn â chymorth gan y cyngor i ofalwyr, er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael cefnogaeth briodol.

Plant a phobl ifanc

Trosolwg

- 6.20. Ar y cyfan, nid yw perfformiad y cyngor mewn perthynas â gwasanaethau plant wedi bod yn gyson ym mhob maes allweddol. Canfu dau arolygiad gan AGGCC nad oedd methiannau helaeth na difrifol a oedd yn gadael

plant mewn sefyllfa niweidiol neu mewn perygl o niwed. Fodd bynnag, nid oedd digon o oruchwyliaeth o'r arferion gan y rheolwyr, a gwnaed nifer o argymhellion.

- 6.21. Roedd tystiolaeth bod staff ar bob lefel, ac aelodau o'r cyngor yn ymrwymedig i wella canlyniadau i blant. Cafodd plant a phobl ifanc mewn perygl o niwed, neu a oedd yn debygol o fod mewn perygl o niwed, eu nodi a'u hamddiffyn, yn enwedig mewn achosion lle roedd diogelu o dan sylw. Fodd bynnag, lle nad oedd arwyddion amlwg o niwed sylweddol, nid oedd penderfyniadau i drosglwyddo cyfathrebiadau i'r cam atgyfeirio yn amserol. Roedd risg o oedi hir i blant a theuluoedd, ac nid oedd y rhain bob amser yn cael cynnig cymorth yn ddigon cynnar.
- 6.22. Gellir cymharu'r lefel o atgyfeiriadau mewn gwasanaethau plant â'r lefel y llynedd. Mae'r perfformiad asesiadau cychwynnol wedi aros yn sefydlog, ac mae'n gyson â'r lefelau cyfartalog ledled Cymru. Cafodd wyth deg pump y cant o asesiadau craidd eu cynnal mewn ffordd amserol, ac mae hyn yn uwch na'r ffigur cyfartalog yng Nghymru o 81%. Er bod hyn ychydig yn is na pherfformiad y llynedd, mae'r cyngor o'r farn bod hyn o ganlyniad i ba mor gymhleth y mae rhai achosion. Eleni, cafodd 200 o'r cyfanswm o 482 o atgyfeiriadau eu gwneud o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau a/neu gam-drin domestig. Mae'r cyngor yn ystyried hyfforddiant penodol sydd ei angen er mwyn ymateb yn effeithiol i'r problemau penodol hyn. Mewn achosion lle mae asesiadau craidd yn cymryd yn hirach na 35 diwrnod, mae'r cyngor wedi gweithio'n galed i leihau hyn, ac mae wedi gwella ei berfformiad ei hun yn y maes hwn yn sylweddol.
- 6.23. Er bod yr asesiadau'n amserol ac yn cynnwys gwybodaeth briodol o amrywiaeth o ffynonellau ar y cyfan, yn ystod ein harolygiad o wasanaethau plant canfuom nad oedd ansawdd yr asesiadau bob amser yn gyson. Gwelwyd bod ansawdd y gwaith cofnodi yn ystod y broses asesu yn wael, ac o ganlyniad i hyn methwyd â dangos tystiolaeth o ba mor fanwl oedd yr ymholiadau a wnaed. Mae hwn yn faes y mae'r cyngor yn mynd i'r afael ag ef drwy gynnal adolygiad o ansawdd yr atgyfeiriadau, yn ogystal â thrwy gynnal hyfforddiant yn fewnol a chydag asiantaethau partner.
- 6.24. Mewn ymateb i'r arolygiaeth, mae'r cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu ôl-arolygiad manwl. Caiff dangosyddion perfformiad allweddol eu hadolygu a'u monitro'n agos, a chaiff adroddiadau ar gynnydd eu cyflwyno i dîm arweinyddiaeth gwasanaethau plant, sy'n monitro'r cynnydd hwn. Caiff hyn yn ei dro ei adolygu mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd, ac mewn cyfarfodydd ymgysylltu penaethiaid gwasanaethau ar wahân gyda rheolwyr AGGCC.

- 6.25. Er bod lefel y plant mewn angen wedi lleihau gan ryw 4% ledled Cymru, ar y cyfan bu cynnydd o 26% yn Sir Fynwy, a oedd yn hafal i 79 o blant. Yn ogystal, ar ôl cwmp sydyn yn 2013-14, mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu'n sylweddol gan 38%, ac mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 37 o blant i 51 o blant. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r cyfartaledd yng Nghymru, sydd wedi gostwng 6% eleni. Awgryma pennaeth y gwasanaeth y gallai hyn fod o ganlyniad i ffocws cynyddol ar godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn ymwneud â diogelu, a'r gwaith a gynhaliwyd gan yr uned diogelu a sicrwydd ansawdd. Fodd bynnag, bwriedir cynnal adolygiad pellach er mwyn ystyried p'un a yw gwaith atal wedi'i dargedu'n effeithiol. Bydd AGGCC yn monitro hyn dros y flwyddyn sydd i ddod fel rhan o'n gwaith ymgysylltu.
- 6.26. Yn ystod ein harolygiad, canfu AGGCC fod penderfyniad prydlon yn cael ei wneud pan roedd arwydd clir bod plentyn neu blant mewn perygl, neu wedi dioddef niwed sylweddol. Yn y sefyllfaoedd hyn cymerwyd camau atgyfeirio a chamau gweithredu effeithiol ym mhob achos a adolygwyd gan yr arolygwyr. Cynhaliwyd ymchwiliadau amddiffyn plant gan weithwyr cymdeithasol â phrofiad addas, ac roedd y penderfyniadau a wnaed yn briodol.
- 6.27. Yn yr adolygiad thematig cenedlaethol, nodwyd bod oedi o ran cael mynediad at wasanaethau ieuchyd meddwl arbenigol i blant drwy'r gwasanaeth ieuchyd meddwl plant a'r glasoed. Mae'r sector ieuchyd wedi dibynnu'n ormodol ar wasanaethau cymdeithasol i ddarparu cyllid ac adnoddau ar gyfer asesu anghenion therapiwtig plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae hyn wedi effeithio ar adnoddau'r tîm, a chafwyd rhywfaint o lwyddiant, bellach, o ran mynd i'r afael â hyn. Cafwyd cytundeb â'r bwrdd ieuchyd lleol bod modd cael mynediad at weithiwr gwasanaethau ieuchyd meddwl plant a'r glasoed er mwyn trafod y ffordd orau ymlaen mewn achosion unigol. Mae'r cyngor yn nodi bod arwyddion cynnar bod y cytundeb newydd hwn yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Er bod tystiolaeth bod y sefyllfa'n gwella, erys hyn yn her.
- 6.28. Mae'r cyngor yn aelod o Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru a sefydlwyd ym mis Ebrill 2013, sy'n cynnwys y pum cyngor yng Ngwent. Mae'r cyngor yn defnyddio polisi honiadau'r bwrdd hwnnw, sy'n rhoi dull cynhwysfawr o reoli honiadau, ond mae'n dal i fod wrthi'n datblygu polisi lleol penodol.
- 6.29. Rhoddir proffil uchel yn y cyngor i ddiogelu, ac mae'r prif weithredwr yn cadeirio'r grŵp diogelu yn yr awdurdod. Yn dilyn dau bryder a nodwyd gan AGGCC ynglŷn ag arferion recriwtio a phryderon diogelu mewn

gwasanaethau plant, cwblhaodd y cyngor waith i wella ei bolisiau, gweithdrefnau a chynlluniau mewn perthynas â diogelu. Bellach, mae polisi diogelu ac amddiffyn plant troswaol ar waith yn Sir Fynwy sy'n rhoi arweiniad ynglŷn â diogelu ac amddiffyn plant, ac mae hyfforddiant wedi'i ddarparu ar hwn.

- 6.30. Mae gan y cyngor fecanweithiau ar waith ar gyfer gwrandio ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae timau gwasanaethau plant wedi derbyn hyfforddiant mewn therapi chwarae, ac maent wedi canolbwyntio ar dreulio rhagor o amser â phlant a phobl ifanc er mwyn casglu eu barn, gyda phwyslais ar y rhai sy'n derbyn gofal. Yn fwy diweddar, llwyddodd y cyngor i recriwtio dau unigolyn a oedd yn gadael gofal fel prentisiaid rhan amser, a byddant yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod barn a dyheadau pobl sy'n gadael gofal yn cael eu hystyried.
- 6.31. Mae staff yn y tîm cefnogi plant a phobl ifanc wedi datblygu tîm pêl droed pobl ifanc, ac mae cyfleoedd eraill un i un ar gyfer casglu adborth mewn awyrgylch anffurfiol. Mae angen rhagor o waith i sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn ei chasglu'n ddigonol, a'i defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- 6.32. Gwnaeth arolygiad o adroddiad gwasanaethau plant a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 dynnu sylw at y ffaith bod angen i drefniadau rheoli perfformiad a sicrwydd ansawdd gael eu hymgorffori'n fwy effeithiol fel bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth berthnasol a manwl gywir am berfformiad a sicrwydd ansawdd, er mwyn galluogi rheolwyr i fod yn fwy effeithiol yn eu gwaith ac i gyflawni gwelliannau. Mae'r cynllun gweithredu yn mynd i'r afael â hyn.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol


Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.33. Mae'r cyngor wedi nodi bod angen cryfhau trefniadau'r Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd er mwyn sicrhau bod gan blant a'u rhieni fynediad at gymorth cynnar. Er bod gan y cyngor bolisiau, gweithdrefnau a chanllawiau cyfredol ar waith, mae angen gwneud rhagor i ddeall y trothwyon rhwng partneriaid a gwasanaethau statudol. Recriwtiwyd cydgysylltydd ar gyfer y Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn ddiweddar, a chynhaliwyd digwyddiadau hyfforddiant ar gyfer staff.
- 6.34. Mae penderfyniad diweddar gan y cyngor i symud y trefniadau strategol ar gyfer y Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd i'r gwasanaeth polisi a phartneriaeth, ochr yn ochr â mentrau eraill Teuluoedd yn Gyntaf a

chanddynt gysylltiadau uniongyrchol â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, wedi bod yn gadarnhaol. Mae posibilrwydd y gallai'r penderfyniad hwn arwain at drefniadau cynllunio gwasanaethau ar y cyd mwy effeithiol ar gyfer plant a theuluoedd sydd angen cymorth a chefnogaeth yn y cyngor. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu llwybr ataliol i alluogi cymorth ar y cyfle cynharaf. Bydd parhau i wneud y gwaith ymyrraeth gynnar hwn yn allweddol er mwyn cyflawni agenda atal cynnar llwyddiannus.

- 6.35. Gwnaeth y cyngor nodi bod gwasanaeth anableddau ar y cyd ar gyfer plant ac oedolion wedi cael ei ddatblygu yn adroddiad statudol blynyddol y cyfarwyddwr y llynedd. Mae blaenoriaethau eraill yn ystod y flwyddyn wedi cymryd blaenoriaeth, felly ni wnaed cynnydd yn y maes hwn hyd yn hyn.

Plant sy'n derbyn gofal



Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Sir Fynwy	111	86	78	106	102	103	108

- 6.36. Mae'r siart uchod yn dangos y duedd saith blynedd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal fesul 1000 o'r boblogaeth ledled Cymru ac yn Sir Fynwy. Ar y cyfan, mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan y cyngor wedi cynyddu ychydig yn ystod 2014-15 (gan 5 plentyn o 103 i 108); y gyfradd o blant sy'n derbyn gofal yw 5.97 fesul 1000 o'r boblogaeth, sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- 6.37. Mae perfformiad ar nifer y newidiadau i leoliadau ysgol yn dangos bod sefydlogrwydd lleoliadau ysgol wedi gwanhau, ac mae cynnydd o 12% yn 2013-14 i 21% eleni. Mae hyn yn gysylltiedig â 15 o blant. Mae nifer o newidiadau'n gysylltiedig â chanlyniadau achosion llys lle symudodd plant i leoliadau hirdymor, a chafodd nifer o bobl ifanc risg uchel eu lleoli y tu allan i'r sir o anghenraid. Mae pennaeth y gwasanaeth yn nodi bod y newidiadau hyn wedi cael eu rheoli'n briodol, a bod y symudiadau'n cael eu cynllunio er mwyn iddynt ddigwydd ar ddiwedd y tymor ysgol. O ganlyniad i gymhlethdod rhai achosion, bu galw am leoliadau arbenigol, ac yn aml nid yw'r rhain ar gael yn agos i'w cartref. Yn y tymor hir, dylai'r cyngor ystyried pa gamau gweithredu sydd eu hangen i hyrwyddo comisiynu lleoliadau arbenigol yn lleol.

- 6.38. Gwelodd yr arolygiad o'r gwasanaeth maethu fod cynnydd da, ac roedd ffocws y tîm yn fwy eglur. Llwyddwyd i gydymffurfio ym mhob maes. Mae'r cyngor wedi cydnabod bod yna faich ychwanegol ar y tîm lleoliadau a chymorth, yn enwedig o ran yr asesiadau gofalwr teuluol sydd eu hangen ar y llys. Mae gofalwyr maeth newydd wedi eu recriwtio i ateb y galw.
- 6.39. Mae'r lefel gorchmynion gwarchodaeth arbennig wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o ddau yn 2012-13 i 21 yn 2013-14. Nid oedd ffigurau ar gael ar gyfer eleni. Mae'r cyngor wedi tynnu sylw at yr angen i gael strwythur mwy cadarn ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, er mwyn gallu rhoi cymorth priodol i'r math hwn o ofalwyr, ac mae wedi cyflwyno achos busnes i'r cyngor am adnoddau ychwanegol i allu ymdrin â'r baich gwaith ychwanegol. Yn y tymor hwy, mae'r awdurdod wedi nodi arbedion sylweddol y gellid eu gwneud, lle mae plentyn yn dod i mewn i'r system drwy orchymyn gwarchodaeth arbennig yn hytrach na chael lleoliad maethu mewnol.
- 6.40. Mewn ymateb i'r hysbysiad gwella a gyflwynwyd gan Estyn yn 2012, defnyddiodd y cyngor y cynllun adfer fel catalydd i ysgogi gwelliannau yn ymwneud â diogelu ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Yn ystod gwaith monitro gan Estyn ym mis Ebrill 2014 cadarnhawyd bod sylfeini ar waith ar gyfer gwella trefniadau diogelu. Gall gwasanaethau cymdeithasol a'r adran addysg ddangos tystiolaeth o sut maent wedi cyflawni canlyniadau addysgol gwell i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r perfformiad mewn perthynas â chynlluniau addysg personol wedi gwella'n sylweddol, o 67% yn 2013-14 i 87% eleni, sydd ymhell uwchben y ffigur cyfartalog yng Nghymru o 70%. Mae perfformiad o ran dosbarthu cynghorwyr personol yn unol â'r perfformiad cenedlaethol ar gyfer y dangosydd hwn. Mae cydweithio agosach rhwng yr adran addysg a'r adran gwasanaethau plant wedi cyfrannu at y gwelliant hwn.

Meysydd o gynnydd

- Mae'r cyngor wedi cymryd camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a oedd yn codi o'r arolygiad ym mis Tachwedd 2014.
- Cynnydd o ran mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed.
- Creu dwy swydd brentisiaeth er mwyn sicrhau pobl sy'n gadael gofal yn cael cynrychiolaeth briodol ar y panel rhianta corfforaethol.

Meysydd i'w gwella

- Gan fod cynnydd yn nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, mae angen dealltwriaeth well o p'un a yw lefelau'r trothwyon yn gywir.

- Gwneud cynnydd ar waith i wella'r broses bontio i blant ag anableddau i wasanaethau oedolion.
- Datblygu'r cynllun gweithredu ôl arolygu ymhellach.

7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

- 7.1. Mae trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu'r cyngor yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol. Mae'r strwythur presennol yn hybu arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r cyfarwyddwr yn rhan o'r tîm corfforaethol, ac mae llinellau atebolrwydd clir drwy'r tîm o uwch reolwyr, ac yng nghyfarfodydd is-adrannol a chyfarfodydd tîm. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wedi ymddiswyddo. Mae'r cyngor wedi cadarnhau y bydd rhywun arall yn cael ei benodi i'r swydd hon. Mae'r newid hwn yn y tîm o uwch reolwyr yn golygu y bydd angen cymorth ychwanegol ar wasanaethau cymdeithasol gan lefelau uchaf y cyngor, er mwyn sicrhau bod modd gwneud rhagor o waith ar flaenoriaethau'r gwasanaethau gan dîm newydd o arweinwyr.
- 7.2. Mae'r gweithlu'n hirsefydlog yng ngwasanaethau oedolion, ac yn sefydlog ar y cyfan. Mewn cyferbyniad â hynny, dros y blynyddoedd diwethaf mae'r gyfarwyddiaeth plant wedi profi ansefydlogrwydd ar lefel y rheolwyr ac ar lefel weithredol, gyda nifer fawr o staff asiantaeth a throsiant uchel. Penodwyd pennaeth newydd i'r gwasanaeth ym mis Ebrill 2014; mae hyn wedi dod â sefydlogrwydd i'r swydd, ac mae'r pennaeth yn uchel ei barch ymhlith yr aelodau a'r staff ar bob lefel.
- 7.3. Gwnaed gwelliannau sylweddol i sefydlogi a datblygu'r gweithlu, gan gynnwys adolygiad o'r pwysau sy'n bodoli, er mwyn dod o hyd i adnoddau presennol ac adnoddau yn y dyfodol i ymdrin â gofynion y gwasanaeth. Mae nifer o swyddi newydd a lleihad o ran defnyddio staff asiantaeth wedi cynyddu morâl y staff, ac maent yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda bellach. Mae hyn yn cyfrannu at arferion mwy cyson. Bydd yr hyfforddiant achrededig mewn gofal dementia, ochr yn ochr â datblygiad proffesiynol parhaus, goruchwyliaeth effeithiol ac ymarfer myfyriol yn galluogi staff i hybu egwyddorion y cyngor o "gwneud pethau'n wahanol – gwneud pethau'n well".
- 7.4. Mae'r cyngor wedi datblygu ei drefniadau rhianta corfforaethol i fod yn fwy cadarn. Bydd y ddau brentis y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli safbwyntiau plant a phobl ifanc yn y grŵp

rhianta corfforaethol. Un o flaenoriaethau'r cyngor y flwyddyn nesaf bydd sefydlu 'cyngor plant sy'n derbyn gofal' er mwyn sicrhau bod y ffocws yn parhau i fod ar faterion sy'n bwysig i blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â'r cyfle i ddylanwadu ar ddylunio'r gwasanaeth a meddwl yn strategol. Yn ogystal, mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu cyfleoedd am gyflogaeth i'r rhai sy'n gadael gofal ac i blant sy'n derbyn gofal yn y cyngor.

- 7.5. Mae'r cyngor wedi gwella ei allu i fonitro ansawdd y gwasanaethau a gomisiynir ganddo. Cyflwynwyd prosesau sicrwydd ansawdd newydd i lywio gwasanaethau a gwaith comisiynu. Mae AGGCC yn gwneud gwaith cadarnhaol gyda'r tîm, ac mae wedi cynnal nifer fach o arolygiadau ar y cyd, yn enwedig lle mae tystiolaeth bod gwasanaeth yn tangyflawni, bod gwasanaeth yn destun pryder, neu fod gwasanaeth yn rhan o'r broses uwchraddio pryderon. Mae strategaethau comisiynu mewn meysydd gwasanaeth eraill yn dangos dealltwriaeth glir o flaenoriaethau'r cyngor, a'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.
- 7.6. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyfarwyddiaeth gwasanaethau oedolion wedi tanwario, o ganlyniad i'r ffordd y mae galw wedi cael ei reoli, ac o ganlyniad i newidiadau o ran arferion. Er y bu cynnydd sylweddol mewn cyllid ar gyfer y rhaglenni eiddilwch a byw yn annibynnol, mae hyn wedi'i wneud yng nghyd-destun arbedion a wnaed mewn meysydd eraill, gan gynnwys ieched meddwl a gofal cartref, lle gwnaed llai o leoliadau. Mae hyn yn cyd-fynd â chyflawni agenda annibyniaeth y cyngor. Mae grantiau cyffredinol i sefydliadau sector gwirfoddol eleni wedi lleihau 20%.
- 7.7. Ar y llaw arall, mae gorwariant ym maes gwasanaethau plant. Mae hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys nifer fach o leoliadau drud y tu allan i'r sir ar gyfer plant/pobl ifanc ag ymddygiadau cymhleth a heriol. At hynny, roedd yn rhaid i'r adran wneud defnydd helaeth o staff asiantaeth er mwyn sicrhau bod ei swyddogaethau statudol yn cael eu cyflawni. Mae'r sefyllfa hon yn gwella. Yn ddiweddar, cyflwynwyd achos busnes llwyddiannus i bwyllgor dethol y cyngor am gyllid ychwanegol er mwyn darparu adnoddau priodol i'r gwasanaeth, er mwyn iddo allu ateb y galw a gwneud y gweithlu'n fwy sefydlog drwy recriwtio i swyddi'n barhaol.
- 7.8. Yn ystod 2014-15, gwnaeth AGGCC oruchwyllo tri chyfarfod gan y pwyllgor dethol. Roedd yr aelodau'n deall y materion a drafodid, gan herio uwch swyddogion gwasanaethau cymdeithasol a swyddogion AGGCC mewn ffordd gadarnhaol.

Meysydd o gynnydd

- Gwaith parhaus â'r bartneriaeth strategol iechyd a gofal cymdeithasol, a pherthnasau â'r bwrdd iechyd.
- Mwy o gapasiti ac ymatebolrwydd ar lefel gorfforaethol mewn perthynas â'r argymhellion i ysgogi'r gwelliannau sydd eu hangen, ac ateb y galw.
- Cryfhau trefniadau rhianta corfforaethol er mwyn sicrhau bod gan y rhai sy'n gadael gofal lais, ac er mwyn hybu meddwl mewn ffordd strategol.
- Lefel yr her a'r ddealltwriaeth ar y pwyllgor dethol.

Meysydd i'w gwella

- Ystyried sut mae plant yn parhau i gael eu diogelu yng ngoleuni'r pwysau ariannol y mae'r cyngor yn ei wynebu.